## PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

**4 Tachwedd 2020**

Yn bresennol: Cynghorydd K Doolin (Dirprwy Gadeirydd yn y Gadair)
Dr M Havard, Cynghorydd M James, Dr R Plummer a'r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am - 11.50am; 12.00pm – 1.40pm)

**1. Ethol Cadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd M James yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

*[Yna cymerodd y Cynghorydd James y Gadair a llywyddu gweddill y cyfarfod.]*

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd K Doolin yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M Williams.

**4. Datgan Buddiannau**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant oddi wrth y Cynghorydd K Doolin (SDF/112020/1 a SDF/112020/4); Dr M Havard (SDF/112020/4); Dr R Plummer (SDF112020/4) a'r Cynghorydd M James (SDF/112020/6). Fodd bynnag gan mai buddiannau personol oedd pob un ohonynt yn hytrach na buddiannau rhagfarnllyd, arhosodd yr Aelodau yn y cyfarfod a chwarae rhan lawn yn y trafodaethau a'r pleidleisio ar y ceisiadau hyn.

**5. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mai 2020.

6. **Cylch Gorchwyl Diwygiedig**
Awgrymodd yr Aelodau nifer o newidiadau i'r Cylch Gorchwyl diwygiedig oedd ger eu bron:

- Cyfansoddiad y Pwyllgor - ychwanegu “a all benodi” at y frawddeg “hyd at 2 Aelod Ymgynghorol”.
- Paragraff 5 – Safoni’r cyfeiriad at y Dirprwy, yn hytrach na'r Is Gadeirydd;
- Y Broses o Wneud Penderfyniadau – Paragraff olaf – Dileu rhan olaf y frawddeg “o bosibl yn awgrymu … ar restr “wrth gefn.”;
- Gweithdrefn Apeliadau - dileu'r ail faen prawf – gellir ond gwneud apêl ar sail hawlio bod y weithdrefn yn anghywir.

**PENDERFYNWYD** bod y Cylch Gorchwyl diwygiedig yn cael ei gytuno yn amodol ar y newidiadau a nodir uchod.

7. **Aelodau Ymgynghorol o’r Pwyllgor**
Roedd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn caniatáu penodi hyd at 2 Aelod Ymgynghorol, a gofynnodd y Swyddog Cyllido a Grantiau am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid penodi’r cyfryw Aelodau, ac os felly sut y dylid gwneud hynny.

Roedd yr Aelodau o’r farn y dylai’r Pwyllgor ar hyn o bryd geisio cyngor aelodau ad hoc yn ôl yr angen yn hytrach na phenodi Aelodau Ymgynghorol.

Gan gyfeirio at e-bost a dderbyniwyd oddi wrth Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro oedd wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor yn y gorffennol, barnai’r Aelodau bod eu mewnbwn wedi bod yn werthfawr ac y gellid unwaith yn rhagor geisio eu cyngor ynglŷn â cheisiadau penodol fel y bo’n briodol.

**PENDERFYNWYD** y dylai’r Pwyllgor ar hyn o bryd geisio cyngor aelodau ad hoc yn ôl yr angen yn hytrach na phenodi Aelodau Ymgynghorol.

8. **Templed Sgorio**
Roedd yr Aelodau yn hapus â’r saith maen prawf a nodwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag roeddent yn cydnabod bod y maen prawf olaf yn fwy anodd i’w fesur oherwydd natur ansoddol rhai o’r buddion. Wrth asesu pob cais o hyn ymlaen, gofynnwyd i’r Swyddog Cyllido a Grantiau ystyried a oedd cyllideb pob prosiect yn cynnig gwerth am arian, hynny yw, a oedd y prosiect wedi’i gostio’n dda, a oedd y dyfynbrisiau yn briodol ac yn y blaen, ac i gynnwys rhywbeth yn ei hadroddiad oedd yn amlygu effeithiolrwydd y costau.

Byddai'r Aelodau yn defnyddio'r templed i sgorio prosiectau yn ddangosol cyn y cyfarfod, a byddai'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel sail i'r trafodaethau ar y diwrnod.

Holwyd cwestiwn ynghylch nifer y dyfynbrisiau y dylid eu disgwyl gan ymgeiswyr. Dywedodd y Rheolwr Cyllid, ar gyfer gwaith a wnaed gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, bod un dyfynbris yn ddigonol ar gyfer gwaith hyd at £10,000; roedd angen tri dyfynbris ar gyfer gwaith hyd at £20,000; tra ar gyfer gwaith dros £25,000 roedd angen gofyn am dendrau. Barnai'r Aelodau y gallai hyn fod yn feincnod defnyddiol ar gyfer ceisiadau i'r gronfa, ond roedd pob ymgeisydd i'w hannog i roi mwy nag un dyfynbris, a chytunwyd y dylid diwygio'r canllawiau i amlygu hyn.

**PENDERFYNWYD** bod y Templed Sgorio yn cael ei gytuno.

**9. Eithrio'r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**10. Adroddiad Diweddaru Cronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)**

**a) Ceisiadau i'w Hystyried**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod fis Mehefin 2020 wedi cytuno i newid ffocws y Gronfa i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned oedd yn cyfrannau at leihau'r allyriadau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd pedwar categori i geisiadau:

a. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol
b. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth
c. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff
d. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu saith cais a wnaed i'r gronfa ers y cyfarfod blaenorol:

| Math o Brosiect | Cyfeirnod | Sefydliad | Y cyllid a geisir |
|---|---|---|---|
| A | SDF/112020/1 | Ymddiriedolaeth Gymunedol Theatr Gwaun | £15,183 |
| A | SDF/112020/2 | Neuadd Bentref Marloes a Sain Ffraid | £6,567 |
| A | SDF/112020/3 | Mencap Sir Benfro Cyf | £2,878 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A | SDF/112020/4 | Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru | £14,840 |
| D | SDF/112020/5 | For the Love of the Sea Limited t/a - Câr-y-Môr | £24,900 |
| D | SDF/112020/6 | Grŵp Amgylchedd Ardal Trefdraeth | £13,620 |
| D | SDF/112020/7 | Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian Cyf | £24,280 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **£102,268** |

Yn dilyn trafodaeth, cytunodd yr Aelodau nad oedd y prosiect a gyflwynwyd gan Rhwydwaith Gwydn Resilience Network Sir Benfro yn gymwys.

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

(i) rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/112020/1 - Dyfodol Cynaliadwy i Theatr Gwaun – hefyd yn amodol ar gael caniatâd cynllunio, cyflwyno amcangyfrifon o'r arbedion a ddisgwylir (fyddai'n ofynnol ar gyfer gwerthuso) a chyflwyno mwy nag un dyfynbris.
b) SDF/112020/2 - Neuadd Bentref Marloes a Sain Ffraid – Gwella ein System Paneli Haul
c) SDF/112020/3 - Mencap Sir Benfro Cyf 2020 Gwaith Effeithiolrwydd
d) SDF/112020/4 – Ynysoedd Cynaliadwy Sir Benfro – hefyd yn amodol ar y Swyddog Cyllido a Grantiau yn cael gwybodaeth bellach ar natur y gwaith o uwchraddio'r system paneli haul, a'i fod yn fodlon â'r wybodaeth honno.

(ii) gwrthod y cais canlynol:
SDF/112020/5 - Ffermydd gwymon a physgod cregyn, y treial cyntaf yng Nghymru, gan nad oedd yr Aelodau o'r farn y byddai'r prosiect yn cyflawni'r nod o leihau carbon. Mynegwyd pryderon ynghylch strwythur llywodraethu'r sefydliad, a barnwyd nad oedd yn briodol rhoi cyllid ar gyfer prynu cwch.

(iii) gohiriwyd y ceisiadau canlynol tan y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor:

a) SDF/112020/6 - Trefdraeth: Datgarboneiddio drwy Fioamrywiaeth – Gofynnodd y Pwyllgor bod yr ymgeisydd yn

rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â strwythur y prosiect, sut fydd y prosiect yn cael ei gyflawni, a sut fydd yr aelod o staff yn cael ei gyflogi; hefyd i gyflwyno cynllun i ddangos pa goed gaiff eu plannu ac ymhle; rhagor o fanylion am ganlyniadau ac allbynnau'r prosiect yn ogystal â dangos yr ymgysylltu â sefydliadau eraill megis Coed Cadw.

b) SDF/112020/7 – Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Sir Benfro (PEEP) – Gofynnodd y Pwyllgor bod yr ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â'r gallu i gyflawni'r prosiect yn yr amgylchiadau COVID-19 sydd ohoni; a manylion am y cysylltiadau â chanolfan di-garbon bresennol Prydain a leolir yn CAT i sicrhau nad ydynt yn dyblygu'r gwaith ymchwil sy'n eisoes ar y gweill.

**b) Sefyllfa Ariannol SDF**

Dywedwyd bod cyfanswm o £150,000 wedi'i neilltuo i'r gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Roedd £50,000 o'r swm hwn yn dod o Gronfa Llywodraeth Cymru 'Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy' oedd angen ei wario erbyn yr 31ain o Fawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn rhestru ymrwymiadau ariannol cyfredol y Gronfa o'r prosiectau sydd wedi derbyn grant yn flaenorol, a nodwyd hefyd bod £4,858 wedi'i wario ar y Grant Bach Gwyrdd.

Dywedwyd bod y gwariant ar y prosiectau a gymeradwywyd yn gyfanswm o £39,468, ac y gallai'r swm cyfan ddod o Gronfa Llywodraeth Cymru 'Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy'. Fod bynnag er mwyn gwario'r £50,000 erbyn y 31ain o Fawrth, gofynnwyd i'r Swyddog Cyllido a Grantiau gysylltu â'r prosiectau hyn i ofyn a allai'r gronfa gynnig cymorth pellach iddynt drwy roi cyfalaf ychwanegol i'r hyn y gofynnwyd amdano yn wreiddiol.

Yn olaf, dywedwyd bod y prosiect yng Ngholeg Coppicewood wedi'i gwblhau ers y cyfarfod diwethaf, ac roedd yr adroddiad terfynol ynghlwm er gwybodaeth i'r Aelodau. Roedd cynnig wedi dod i law i'r Pwyllgor ymweld â'r safle, ac yn amodol ar gwblhau asesiadau risg COVID-19 priodol, cytunodd yr Aelodau i dderbyn y cynnig, gan y byddai'n ddiddorol gweld beth oedd y cyllid wedi llwyddo i'w gyflawni.

Cadarnhawyd y cofnodion hyn (cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau sy'n dilyn) yng nghyfarfod y Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021

O ran Cofnod 7 (Aelodau Ymgynghorol o'r Pwyllgor) eglurwyd y byddai'r swyddog yn ceisio cyngor penodol ynglŷn â cheisiadau unigol lle bo'r swyddog/Pwyllgor o'r farn bod angen hynny.

O ran Eitem 10 b) eglurodd yr Aelodau y byddent, oherwydd y cyfnod clo ar hyn o bryd, yn ymweld â'r safle pan ddaw'r cyfle i wneud hynny.